# Adolygiad Rhwydwaith Môr Iwerddon o Fôr Iwerddon 2022

## Crynodeb Gweithredol

**Mae sicrhau defnydd cynaliadwy o'r moroedd yn her i unrhyw wlad wrth ystyried ei dyfroedd tiriogaethol. Fodd bynnag, mae gwireddu defnydd cynaliadwy ar draws dyfroedd rhyngwladol sy'n wleidyddol ac ecolegol gymhleth fel Môr Iwerddon yn her y mae'n rhaid ei goresgyn i adfer yr amgylchedd morol, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cefnogi cymunedau gwydn, a datblygu economi ffyniannus. Mae allyriadau carbon presennol a lefelau uchel o weithgareddau dinistriol yn niweidio iechyd pobl a'r blaned. Bydd gwarchod ac adfer tirweddau morol pwysig, ynghyd â rheolaeth well a mwy cydlynol ar Fôr Iwerddon, yn hanfodol i sicrhau iechyd hirdymor yr amgylchedd morol.**

Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn bartneriaeth arloesol, newydd sy'n cynnwys sefydliadau cadwraeth o amgylch Môr Iwerddon sydd wedi dod at ei gilydd i wella ein heffaith ar y cyd ar fyd natur. Wedi'i sefydlu ym mis Medi 2020, drwy gyllid a ddarparwyd gan Sefydliad Esmée Fairbairn a Sefydliad John Ellerman, mae aelodaeth y Rhwydwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o: Ymddiriedolaeth Natur Manaw, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Orllewin Lloegr, Ymddiriedolaeth Natur yr Alban, y Sustainable Water Network (Iwerddon), Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru ac Ulster Wildlife.

Cynlluniwyd y ddogfen hon i fod yn asesiad sylfaenol Rhwydwaith Môr Iwerddon o Fôr Iwerddon, i'w defnyddio gan bobl sy'n gwneud penderfyniadau wrth iddynt ystyried rheoli gweithgareddau morol ym Môr Iwerddon.

Canfyddiadau allweddol:

- Mae Môr Iwerddon yn fôr rhanbarthol pwysig - yn ecolegol ac yn economaidd-gymdeithasol.
- Rheolir Môr Iwerddon gan chwe gwlad wahanol ac er bod sail gyffredin ar gyfer cydweithredu rhanbarthol wrth fynd i'r afael â gwrthdaro amgylcheddol a rheoli gweithgareddau sy'n digwydd ym Môr Iwerddon, neu'n effeithio arno, drwy ddeddfwriaeth ryngwladol, mae'r chwe gwlad yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol, gyda blaenoriaethau gwahanol ac felly gwahanol bolisïau, deddfwriaeth a thargedau, gan wneud rheoli Môr Iwerddon yn gymhleth.
- Mae Môr Iwerddon dan bwysau sylweddol a chynyddol yn sgil newid yn yr hinsawdd a gweithgareddau anthropogenig fel pysgota, dyframaethu, datblygu, morgludiant, agregau, gweithgarwch milwrol, gweithgarwch hamdden a llygredd.
- Mae 36% o Fôr Iwerddon wedi'i ddynodi'n Ardal Morol Gwarchodedig (AMG), ond mewn gwirionedd dim ond 5% sydd ag unrhyw reolaeth yn ei lle ac mae llai na 0.01% wedi'i warchod yn llawn.
- Yn y pen draw, mae pwysau sylweddol a chynyddol ar Fôr Iwerddon, a mesurau rheoli annigonol i ddiogelu a chynnal iechyd Môr Iwerddon.

Mae'r ddogfen hon yn sail i'r dystiolaeth ar gyfer y ddogfen atodol 'Gweledigaeth a datganiadau safbwynt Rhwydwaith Môr Iwerddon'.

**https://www.livingseasnw.org.uk/what-we-do/marine-conservation-projects/marine-policy/irish-sea-network**

ALEXANDER MUSTARD/2020VISION

The Irish Sea Network members:

Manx Wildlife Trust / Treisht Bea-Feie Vannin; Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust; North West Wildlife Trusts; Scottish Wildlife Trust; Sustainable Water Network SWAN; Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / Wildlife Trust of South & West Wales; Ulster Wildlife

Funding partners:

Esmée Fairbairn Foundation; John Ellerman Foundation

Protecting **Wildlife** for the Future